
Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch

Sut dylai'r rheoliadau edrych?

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Rhagfyr 2018

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae arferion gwyllo'r teledu yn symud oddi wrth deledu a ddarledir yn draddodiadol at wasanaethau dal i fyny ac ar-alw. Ond mae pobl sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw yn colli allan oherwydd yn aml nid ydy'r gwasanaethau newydd hyn yn darparu nodweddion hygyrchedd hanfodol fel isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.

Mae'r datganiad hwn yn rhoi ein hargymhellion i'r Llywodraeth ar ddrafftio rheoliadau i wella hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni fideo ar-alw wedi'u rheoleiddio. Mae arnom eisiau sicrhau bod modd i'r gynulleidfa ehangaf bosibl eu defnyddio a'u mwynhau, ni waeth beth yw'r anabled, gan alluogi cyfranogiad a chynhwysiant llawn mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol.

Beth rydyn ni'n ei argymell – yn gryno

Rheoliadau

Ein nod ydy cael rheoliadau sy'n cynyddu hygyrchedd cynnwys ar-alw yn effeithiol ar yr un pryd â bod yn ddigon hyblyg i fod yn berthnasol nawr ac yn y dyfodol i'r diwydiant ar-alw sy'n amrywiol ac yn datblygu.

Rydyn ni'n argymell bod y rheoliadau'n dilyn y dull gweithredu a sefydlwyd ar gyfer hygyrchedd darlledu: system o dargedau heriol gydag eithriadau hyblyg. Rydyn ni'n argymell y bydd y rheoliadau'n mynnu'r canlynol:

- a) Cyn pen 4 blynedd i'r rheoliadau ddod i rym, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw gynnig isdeitlau ar 80% o'u catalog, disgrifiadau sain ar 10% ac iaith arwyddion ar 5%.
- b) Targed 2 flynedd interim o 40%, 5% a 5% yn y drefn honno
- c) Eithriadau o'r targedau hyn neu dargedau is (neu drefniadau eraill) ar sail: i) Y fantais i'r gynulleidfa ii) Fforddiadwyedd iii) Anawsterau technegol

Er mwyn i hyn lwyddo byddwn ni angen adroddiadau cynhwysfawr rheolaidd gan ddarparwyr ar-alw. Rydyn ni'n argymell bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom ar i ba raddau y maen nhw / sut maen nhw wedi cyflawni'r gofynion, a'u cynlluniau i barhau i wneud eu gwasanaethau'n fwy hygyrch. Rydyn ni hefyd yn argymell ei bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw adrodd ar y mesurau maen nhw wedi'u cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau mynediad angenrheidiol o ansawdd digonol a bod modd i'w cynulleidfa oedd targed eu defnyddio'n effeithiol.

Cod Ofcom

Bydd y rheoliadau'n cael eu hategu gan god canllawiau Ofcom a fydd yn nodi sut dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw gyflawni'r gofynion. Bydd Ofcom yn ymgynghori ar y Cod hwn cyn cyhoeddi a bydd yn rhaid i ddarparwyr ei ystyried wrth gydymffurfio â'r rheoliadau.

Rydyn ni'n cydnabod bod cyflawni hygyrchedd ar-alw yn gallu bod yn gymhleth. Rydyn ni'n disgwyl y bydd cod Ofcom yn gosod (ymysg pethau eraill) sut y bydd Ofcom yn asesu eithriadau o'r targedau angenrheidiol (neu'r gostyngiadau). Bydd y cod yn gosod sut bydd y gofynion yn cael eu diwallu mewn perthynas â gwasanaethau sydd ar gael ar draws sawl llwyfan (gan gynnwys blaenoriaethu hygyrchedd gwasanaethau ar lwyfannau penodol, gan ystyried y budd tebygol i gynulleidfaoedd).

Rydyn ni'n credu bod hwn yn gyfle i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau ar-alw yn ystyried nid yn unig faint o wasanaethau mynediad maen nhw'n eu darparu ond eu hansawdd a'u defnyddioldeb hefyd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd cod Ofcom yn cynnwys canllawiau ar sicrhau bod gwasanaethau mynediad yn gallu cael eu defnyddio'n effeithiol gan y gynulleidfa darged, gan gynnwys drwy (a) darparu gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau mynediad; a (b) sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau mynediad yn ddigon da.

Mae'r trosolwg hwn yn amlinellu ein prif argymhellion. I gael rhagor o fanylion ar bob un pwynt, dilynwch y dolenni uchod i'r adrannau perthnasol o'r datganiad, lle byddwch chi'n dod o hyd i grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, trafodaeth Ofcom, ac argymhellion manwl.

Pam ydym ni'n gwneud argymhellion?

- 1.1 Dros y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gweld newid enfawr yn ein harferion gwyllo teledu, yn sgil cyflwyno gwasanaethau teledu dal i fyny a gwasanaethau tanysgrifio ar-alw (fel Amazon Prime a Now TV). Ond, er bod y gwasanaethau hyn yn cynnig mwy o ddewis nag erioed o'r blaen, mae rhai grwpiau allweddol ar eu colled. Ar gyfer y rheini sydd â nam ar eu clyw a/neu eu golwg, mae mynediad i deledu (a'r gallu i'w fwynhau) yn gallu dibynnu'n llwyr ar is-deitlau, iaith arwyddion neu ddisgrifiadau sain (sydd gyda'i gilydd yn cael eu galw'n 'gwasanaethau mynediad')
- 1.2 Mae sianeli teledu sy'n darlledu yn y ffordd draddodiadol yn gorfod sicrhau bod cyfran benodol o'u rhaglenni'n hygyrch dan y gyfraith. Ond nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw ac mae hygyrchedd ar-alw yn llusgo y tu ôl i deledu darlledu.
- 1.3 Mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn braenaru'r tir ar gyfer gofyniad (ar ffurf rheoliadau statudol) bod gwasanaethau ar-alw yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Ofcom ymgynghori â'r rheini y byddai gofynion o'r fath yn effeithio arnyn nhw. Daeth ein ymgyngoriad cyhoeddus i ben ar 3 Ebrill 2018 ac mae'r datganiad hwn yn cynrychioli ein hadroddiad yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw ac unrhyw faterion eraill rydyn ni'n credu y dylid eu hystyried yn y rheoliadau.

Y camau nesaf

- 1.4 Yn amodol ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn llunio'r rheoliadau, mae Ofcom yn disgwyl cyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad ar god a fyddai'n rhoi canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar ddiwallu'r gofynion newydd.